



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Plas Cwmcynfelin Cyf

**Plas Cwmcynfelin
Clarach
Aberystwyth
SY23 3DN**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/09/2023

Llywodraeth Cymru © Hawffraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Plas Cwmcynfelin Ltd

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal â Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Plas Cwmcynfelin Limited
Lleoedd cofrestredig	55
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	27 Ebrill 2023
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gânt. Cânt eu cefnogi gan dîm o staff cyfeillgar a gofalgar, y maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Mae'r cynrychiolwyr hefyd yn gadarnhaol am y gwasanaeth a dywedodd un ohonynt wrthym *"It's home from home, he's thriving there and says it's his home"*. Caiff y gwasanaeth ei arwain yn dda gan y rheolwr; dywedodd y bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff wrthym eu bod yn gwerthfawrogi ei gymorth a'i arweiniad.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac yn gyfforddus, gydag ardaloedd mewnol ac allanol a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda er mwyn i'r bobl allu ymlacio a rhyngweithio â'i gilydd.

Mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol yn dda ac yn ei barchu. Mae'n goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda ac yn defnyddio gwybodaeth o'i archwiliadau mewnol i lywio ei adolygiad o ansawdd y gofal a gynhelir bob chwe mis.

Mae'r darparwr wedi ymdrin â'r materion a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol o ran nifer yr ystafelloedd dwbl yn y cartref, datblygu cynlluniau personol, rheoli meddyginiaethau, diweddarau hyfforddiant a sesiynau goruchwyllo i'r staff.

Llesiant

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth o ansawdd da sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Mae'r rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Caiff y bobl eu gwerthfawrogi a'u parchu gan staff cyfeillgar, sy'n dathlu eu cyflawniadau. Caiff gwaith celf y bobl ei arddangos, mae trafodaethau â'r staff yn fywiog a chaiff unigolion eu hannog i deimlo mai Plas Cwmcynfelin yw eu cartref. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ymweld, sy'n golygu y gall y bobl wahodd eu ffrindiau a'u teulu i'r cartref pryd bynnag y dymunant. Soniodd un cynrychiolydd wrthym am y croeso a gaiff yn y cartref a dywedodd, *"I am glad my father came here he has a new family and so do I"*. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym *"I enjoy going into work"*, *"The residents are a good laugh"* ac *"I like to do my best for people"*. Mae'r unigolion yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt, fel cymdeithasu a chymryd rhan yn y gweithgareddau a gynlluniwyd. Mae'r cynrychiolwyr hefyd yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth; dywedodd un *"He has come along so much since moving there, he looks 10 years younger"*. Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae llawer o'r staff yn siarad Cymraeg a gwelsom unigolyn a'i weithiwr gofal yn cyd-ganu'n hapus yn Gymraeg.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu gan fod prosesau recriwtio yn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau sefydlu a chyfleoedd datblygu parhaus effeithiol ac maent yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn diogelu'r bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny, ac maent yn ymddiried yn y rheolwr.

Mae'r adeilad yn gartrefol ac mewn cyflwr da. Mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd eu hunain fel y mynnant. Mae'r ardaloedd cymunedol yn gyfforddus, yn olau ac yn fawr. Mae'r bobl yn defnyddio'r gwahanol ardaloedd sydd ar gael iddynt i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau, er enghraifft, sgwrsio â'i gilydd, gwyllo'r teledu, darllen, a chymryd rhan mewn gweithgareddau a gynlluniwyd. Mae'r gerddi croesawgar yn hygyrch ac mae'r bobl yn mwynhau gwneud pethau sy'n bwysig iddynt pan fyddant allan ar dir y cartref.

Mae gan y bobl lais ac maent yn cyfrannu at y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg gan fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu cynnwys yn y broses sicrhau ansawdd. Mae'r prosesau llywodraethu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o arolygon ac archwiliadau. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn nodi meysydd i'w gwella ar ôl ymgynghori â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff sy'n gweithio yn y cartref.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth a gânt. Gwelsom lawer o ryngweithio cadarnhaol a chyfeillgar rhwng y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Mae'r gweithwyr gofal wedi meithrin cydberthnasau cyfeillgar â'r bobl ac yn eu cefnogi yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau. Dywedodd unigolyn wrthym *"The home is fantastic, and the staff are great"*. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn eu parchu fel unigolion. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"The residents are what makes the place, the individual characters are so special"*. Mae'r cynrychiolwyr hefyd yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth a dywedwyd wrthym *"The staff are brilliant, I couldn't ask for better people to look after her. They've done an exceptional job of supporting her"*.

Mae'r darparwr wedi ymdrin â'r materion o ran y cynlluniau personol a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Caiff y bobl, eu cynrychiolwyr, y gweithwyr gofal a gweithwyr proffesiynol eu cynnwys wrth ddatblygu a chynnal y cynlluniau. Mae'r nyrsys yn adolygu'r cynlluniau yn rheolaidd â'r unigolion a/neu eu cynrychiolwyr i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol. Mae'r ddogfennaeth yn dangos tystiolaeth dda bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys yn effeithiol. Mae nodiadau dyddiol yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a gwblhawyd ac mae'r rheolwr yn bwriadu eu gwella, er mwyn cynnwys mwy o fanylion o safbwynt yr unigolyn.

Mae gan y gwasanaeth raglen weithgareddau ag amrywiaeth o weithgareddau fel ymarfer corff o'r gadair, celf, crefftau, a cherddoriaeth. Wrth drafod gweithgareddau, dywedodd unigolyn wrthym, *"The staff have been so good, showing me what to do and it's been great fun"*. Mae'r bobl hefyd yn mwynhau diddordebau fel darllen, gwyllo'r teledu a rhyngweithio â'i gilydd. Mae ffisiotherapydd yn gweithio yn y gwasanaeth ac mae ei arweiniad arbenigol o fudd i'r bobl. Mae'r bobl hefyd yn cael eu cefnogi i dreulio amser yng nghwmni eu teuluoedd a'u ffrindiau yn y gwasanaeth a/neu yn eu cymuned leol. Mae'r rheolwr yn trefnu diwrnodau lle gall y bobl, eu cynrychiolwyr, y staff a'u teuluoedd fwynhau digwyddiadau cymdeithasol yn y gwasanaeth. Dywedodd cynrychiolydd wrthym am fanteision gallu gosod bwrdd adar y tu allan i ystafell ei dad a'r mwynhad a gaiff wrth weld y bywyd gwyllt.

Ymdriniwyd â'r materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol ynghylch argaeledd meddyginiaethau. Caiff meddyginiaethau eu rheoli'n briodol yn y gwasanaeth, ac mae'r meddyginiaethau cywir a ragnodir ar gael ac yn cael eu rhoi i'r bobl. Mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno system glir ac mae'n gweithio gyda chydweithwyr iechyd os na fydd meddyginiaethau ar gael.

Mae nifer digonol o nyrsys bellach ar gael drwy gydol y dydd i ddiwallu anghenion iechyd y bobl yn ddiogel. Mae nifer digonol o weithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cadarnhaol a phwylllog yn ystod yr arolygiad.

Yr Amgylchedd

Caiff y gwasanaeth ei rannu'n ddau adeilad ar wahân, sef y prif dŷ a'r cerbyty. Mae'r ddau amgylchedd yn olau, yn ffres ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda gan dîm cadw tŷ a thîm cynnal a chadw ymroddedig. Mae'r bobl yn mwynhau rhyngweithio â'i gilydd, eu hymwelwyr a'r tîm o staff yn yr amrywiol ardaloedd gwahanol sydd ar gael ym mhob rhan o'r cartref. Mae'r unigolion yn arddangos eu heitemau yn yr ardaloedd cymunedol a gallant bersonoli eu hystafelloedd â'u lluniau a'u dodrefn eu hunain. Mae'r tiroedd deniadol yn hygyrch a chaiff y bobl eu cefnogi i fwynhau treulio amser yn yr ardaloedd hyn.

Mae gan y darparwr raglen uwchraddio barhaus er mwyn sicrhau y caiff décor y cartref ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn creu awyrgylch croesawgar i'r bobl. Caiff gwelliannau a gynlluniwyd i'r amgylchedd eu cwblhau drwy gydol y flwyddyn. Cawsom wybod fod camau yn cael eu cymryd yn gyflym mewn ymateb i unrhyw broblemau a bod gwaith atgyweirio yn cael ei gwblhau'n brydlon. Dywedodd un cynrychiolydd wrthym; *“The home is so well looked after, from the front gate and all the way through the house. You can see they take pride in what they do”*.

Mae'r rheolwr yn sicrhau y caiff archwiliadau lechyd a Diogelwch rheolaidd eu cwblhau o'r eiddo a'r cyfarpar. Mae'r profion diogelwch tân yn gyfredol ac mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi'u teilwra at yr unigolyn ac ar gael mewn argyfwng.

Rhodddwyd sgôr hylendid bwyd o 5 i'r gegin ac mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o brydau cartref wedi'u paratoi'n ffres. Mae'r bobl yn mwynhau'r dewis o gael profiad bwyta cymdeithasol gyda'i gilydd neu o gael bwyta'n dawel ar eu pen eu hunain. Dywedodd unigolyn wrthym *“the food is excellent and all homemade”*.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol wedi cael eu datrys. Mae'r darparwr wedi gwella ei drefniadau ar gyfer monitro a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymwneud â'r broses o redeg y cartref o ddydd i ddydd. Caiff ei ddisgrifio fel unigolyn cefnogol sy'n hawdd mynd ato. Dywedodd un gweithiwr gofal *"They are lovely and I can go to them with any problem and they sort it out. I feel I can raise anything with them"*. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau adroddiadau chwarterol, lle mae'n trafod ansawdd y gwasanaeth â'r bobl, eu cynrychiolwyr, gweithwyr proffesiynol allanol a'r staff. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn defnyddio gwybodaeth o archwiliadau mewnol a gwiriadau ansawdd i gwblhau'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis.

Mae'r rheolwr yn adnabod yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth yn dda a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cadarnhaol rhwng y rheolwr a'r bobl. Mae'r staff yn disgrifio'r rheolwr fel unigolyn parod ei gymwynas sy'n awyddus i helpu. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym fod y rheolwr yn *"Very approachable, anything you need you can go to them"*. Dywedodd y cynrychiolwyr wrthym fod y rheolwr bob amser ar gael, yn hawdd siarad ag ef ac yn barod i helpu; dywedodd un wrthym *"Any time I need to talk to them I call up and see them in the office. Dad says they are always about, talking to him and other residents"*.

Mae'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio chwarterol rheolaidd ac adeiladol ac maent yn gwerthfawrogi argaeledd y rheolwr. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym fod *"Supervision is helpful but I like getting things sorted there and then. The managers are brilliant and they sort things out straight away"*. Dangosodd trafodaethau â'r staff eu bod yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r trefniadau diogelu. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae gan y gweithwyr ddealltwriaeth ddigonol ohonynt.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, gwirio'r hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Ymdriniwyd â'r materion o ran gwneud cais o'r newydd am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd ac mae gan bob aelod o'r staff dystysgrif gyfredol.

Mae aelodau newydd o staff yn dilyn proses sefydlu gynhwysfawr yn unol â'r rhaglen ar y cyd â'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd. Mae'r rheolwr wedi gwella ei drefniadau ar gyfer goruchwylio hyfforddiant gorfodol parhaus. Cadarnhaodd y matrices hyfforddiant welliant sylweddol o ran cydymffurfiaeth â hyfforddiant er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion y bobl. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym *"You can get stagnant but the training refreshes you and there's always something new"*. Mae'r rheolwr yn helpu'r staff i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae nifer digonol o staff i ddiwallu anghenion y bobl. Mae llawer o'r gweithwyr wedi gweithio yn y gwasanaeth ers blynyddoedd ac wedi meithrin cydberthnasau da â'r bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn deall amgylchiadau personol ac anghenion cymorth yr unigolion.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
58	Nid yw meddyginiaethau ar gael bob amser ac felly nid ydynt yn cael eu rhoi fel y'u rhagnodir i bawb. Ni chaiff hyn ei ddwyn i sylw'r rhagnodwr, y tîm diogelu na chomisiynwyr.	Cyflawnwyd
35	Nid yw'r darparwr wedi gwneud cais am dystysgrif newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth, o leiaf bob tair blynedd, fel sy'n ofynnol.	Cyflawnwyd

45	Mae nifer yr oedolion sy'n cael eu lletya mewn ystafelloedd a rennir yn fwy na 15% o gyfanswm nifer yr oedolion sy'n cael eu lletya gan y gwasanaeth.	Cyflawnwyd
34	Nid yw'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau ar bob adeg bod nifer digonol o staff sydd â'r cymwysterau a'r hyfforddiant addas wedi eu defnyddio i weithio yn y gwasanaeth, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth ac anghenion gofal a chymorth y bobl.	Cyflawnwyd
36	Nid yw'r staff yn cael yr hyfforddiant craidd na'r hyfforddiant arbenigol gofynnol i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gefnogi pobl yn y gwasanaeth. Ni chaiff sesiynau goruchwylio ac arfarnu unigol eu cwblhau fel sy'n ofynnol.	Cyflawnwyd

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
16	Nid yw'r bobl a/neu'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys bob amser yn y broses o adolygu eu cynlluniau personol.	Cyflawnwyd
80	Nid yw system sicrhau ansawdd y darparwr wedi gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.	Cyflawnwyd
15	Ni chaiff cynlluniau personol eu cwblhau o fewn yr amserlen ofynnol bob amser.	Cyflawnwyd

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 22/11/2023